



Wales Co-operative Centre  
Canolfan Cydweithredol Cymru

2020

# Adroddiad Amgylcheddol



## **Cynnwys**

<b>Rhagair gan y Prif Weithredwr .....</b>	<b>3</b>
<b>Ein Busnes.....</b>	<b>4</b>
<b>Perfformiad Amgylcheddol 2020 .....</b>	<b>5</b>
<b>Blaenoriaethau Amgylcheddol 2021.....</b>	<b>7</b>

Awdur yr Adroddiad: Angela Overment (Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol)

Dyddiad yr Adroddiad: 14 Ionawr 2021

## Rhagair gan y Prif Weithredwr



### Annwyl Ddarllenydd

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn gydweithrediaeth sy'n gweithio gyda phobl, cymunedau a mentrau i wella eu bywydau a'u bywoliaeth.

Rydym yn gweithio i hyrwyddo economi sy'n fwy teg, ac yn helpu i adeiladu dyfodol gwell i bawb yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys popeth a wnawn fel sefydliad, a hefyd ein ffordd o gyflawni hynny. Ein nod yw sicrhau bod ein busnes yn cael yr effaith leiaf bosibl ar yr amgylchedd, fel y gallwn ddiogelu ein byd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn cymryd ein hymrwymiad i ddeall a rheoli ein heffaith amgylcheddol o ddifrif ac rydym yn falch o fod wedi ennill achrediad y Ddraig Werdd ers blynyddoedd lawer.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein perfformiad amgylcheddol yn ystod 2020 ac yn amlinellu ein blaenoriaethau amgylcheddol presennol.

Derek Walker  
Prif Weithredwr  
Ionawr 2021

# Ein Busnes



Canolfan Cydweithredol Cymru yw asiantaeth ddatblygu gydweithredol fwyaf y DU, sy'n darparu cymorth busnes i fusnesau cymdeithasol a mentrau cydweithredol, gan gynnwys busnesau twf a busnesau sydd newydd ddechrau; cydweithfeydd gofal cymdeithasol, cydweithfeydd tai, a chyfleusterau sy'n eiddo i'r gymuned.

Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau i wella'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer iechyd a lles, ac yn helpu cymunedau i ddatblygu busnesau neu brosiectau sy'n gwerthfawrogi pobl a'r amgylchedd cymaint ag elw.

Rydym hefyd yn dylanwadu ar bolisiau cyhoeddus Cymru ac yn ymateb iddynt.

Ein trosiant hyd at 31 Mawrth 2020 oedd £5.3 miliwn. Rydym yn cyflogi tua 100 o bobl, sy'n darparu gwasanaethau ledled Cymru.

Mae ein Prif swyddfa yng Nghaerffili, ac mae gennym swyddfa lai yn Abertawe. Yn 2020, penderfynwyd cau'r swyddfa ym Mangor gan ddefnyddio amrywiol leoliadau gweithio mwy hyblyg ledled y Gogledd, model sydd wedi gweithio'n dda i ni yng Nghaerfyrddin a'r canolbarth.

Ers diwedd Mawrth 2020, mae ein holl weithwyr wedi bod yn gweithio gartref, gan roi'r gorau i'r holl deithiau busnes ac eithrio'r mwyaf hanfodol. Â ninnau'n sefydliad ystwyth gyda seilwaith TG modern, roedd hyn gymharol hawdd i ni. Gan fod y newid cychwynnol bellach wedi hen sefydlu, rydym yn awyddus i grynhoi'r manteision niferus a gafwyd yn sgil yr arferion gweithio hyblyg a thechnolegol, gan roi perfformiad amgylcheddol yn uchel ar yr agenda.

# Perfformiad Amgylcheddol 2020



Yn ystod 2020, cofnodwyd y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'n perfformiad amgylcheddol:

## Gwastraff

Blwyddyn	Gwastraff Ailgylchadwy	Gwastraff tirlenwi
2019	292 (55%)	235 (45%)
2020	69 (54%)	59 (46%)

## Trydan

Blwyddyn	KwH a ddefnyddiwyd	Ffactor Trosi Defra	Cyferth â Charbon Deuocsid( Kg CO <sup>2</sup> e)
2019	33751	0.2556	8627
2020	41979	0.23314	9787

## Teithiau Busnes \*

Blwyddyn	Milltiroedd	Ffactor Trosi Defra	Cyferth â Charbon Deuocsid (Kg CO <sup>2</sup> e)
2019	168045	0.28502	47896
2020	57293	0.27584	15804

DS: Mae ein hymateb i bandemig y Coronafeirws wedi effeithio'n sylweddol ar y defnydd o ynni a chynhyrchu gwastraff yn ein swyddfeydd, yn ogystal â'n milltiroedd busnes blynyddol. O ganlyniad, rydym yn cydnabod bod y ffigurau hyn yn anghymesur o isel mewn perthynas â 2019. Serch hynny, rydym wedi ymrwmo i wella ein harferion gwaith gan gefnogi gwelliannau mewn termau real yn y dyfodol.

# Cyflawniadau Amgylcheddol Eraill 2020



Yn ystod 2020, bu inni gyflawni'r canlynol:

- Cyhoeddi ein strategaeth fusnes wedi'i diweddarau sy'n nodi'n glir ein hymrwymiad i hyrwyddo cymdeithas decach a gwyrddach.
- Trawsnewid ein busnes cyfan i ddarparu gwasanaethau i gleientiaid yn rithwir, gyda'r holl staff yn gweithio gartref ers mis Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws.
- Arwain wythnos rithwir "TechFest", lle'r oedd cyfle i ddathlu ac arddangos sut y gall technoleg ddigidol helpu i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cyfathrebu ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r hyn a ddisgwyliwn oddi wrth gyflenwyr posibl drwy ein dogfennau caffael.
- Cyfrannu rhoddion at raglen Maint Cymru i blannu 1000 o goed ffrwythau yn Uganda er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella bywoliaeth teuluoedd.
- Cyfathrebu materion amgylcheddol perthnasol i staff drwy ein mewnrwyd a'n cylchlythyr.
- Croesawyd sawl awgrym a gafwyd gan staff ar gyfer ffyrdd syml o gefnogi'r amgylchedd naturiol megis hyrwyddo cynhyrchion di-blastig i'w defnyddio gartref, hyrwyddo Pythefnos Masnach Deg a phlannu blodau.
- Rhoi pecyn o hadau i'r holl staff i'w plannu yn eu gerddi gartref.
- Lansio llwyfan e-ddysgu sy'n cynnwys modiwl Ymwybyddiaeth Amgylcheddol cynhwysfawr.

# Blaenoriaethau Amgylcheddol 2021



Oherwydd maint a natur ein busnes, credwn fod y risg i'r amgylchedd o lygredd neu weithgareddau gweithredu yn gymharol isel. Fodd bynnag, credwn fod diogelu'r byd naturiol yn bwysig, ac os ceir achosion o wrthdaro, rydym yn awyddus i sicrhau'r sgil-ffaith lleiaf posibl.

Nodwyd mai'r effeithiau amgylcheddol allweddol sy'n deillio o'n gweithgareddau dynol a gweithredol yw gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi a theithiau busnes. Hoffem hefyd leihau unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â'n defnydd o drydan. Felly, rydym wedi pennu'r amcanion a'r targedau canlynol ar gyfer 2021:

Amcan	Targed
Lleihau ôl troed carbon y Ganolfan	Lleihau gwastraff blynyddol i safleoedd tirlenwi 5%*
	Lleihau'r defnydd o drydan 5%*
	Lleihau teithio busnes blynyddol 5%*
Cynnal rheolaeth effeithiol ar wella'r EMS yn barhaus	Symud o Lefel 2 i Lefel 3 o dan Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith staff	Yr holl staff i ddeall ymrwymadau amgylcheddol y Ganolfan

\*O gymharu â 2019

I gefnogi gwelliant amgylcheddol parhaus, bydd ein hamcanion a'n targedau yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau o fewn ein System Rheoli Amgylcheddol neu gyflawniadau a wnaed.

Hefyd, rydym yn ymrwymo i adolygu ein rhwymedigaethau deddfwriaethol a gwirfoddol, gan adolygu'r effaith y mae ein gweithgareddau dynol a busnes yn ei chael ar yr amgylchedd naturiol, ac adolygu ein mesurau atal llygredd i sicrhau bod popeth yn gyfredol, yn drylwyr ac yn ddigonol i ddiogelu'r byd naturiol.

Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.





### **Datganiad Amgylcheddol/Dilysu Adroddiadau**

Mae'r wybodaeth yn y Datganiad/Adroddiad Amgylcheddol hwn wedi'i samplu a'i dilysu gan archwilydd y Ddraig Werdd a nododd ei fod yn asesiad teg a chywir o weithgareddau a pherfformiad amgylcheddol y sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf o fewn cwrpas diffiniedig y sefydliad.

Archwilydd Arweiniol	Bethan Harries
Sefydliad Archwilio	Canolfan Busnes Gwyrdd <i>(ar ran Groundwork Cymru)</i>
Dyddiad yr Archwiliad	13/01/2021
Dilys tan	12/01/2022

Nid yw dilysu'r Datganiad/Adroddiad Amgylcheddol yn cadarnhau ardystiad System Rheoli Amgylcheddol sefydliad Safon y Ddraig Werdd. Gellir cadarnhau ardystiad drwy gael copi o dystysgrif ddilys Draig Werdd y sefydliad neu trwy fynd i wefan y Ddraig Werdd yn [www.greendragonems.com](http://www.greendragonems.com)